cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA) Ffurflen Tystiolaeth Anabledd

### Am y ffurflen hon

Er mwyn cael DSA, mae angen i chi ddarparu mwy o wybodaeth am eich nam. Rhaid i chi a gweithiwr meddygol sy'n gyfarwydd â'ch nam lenwi'r ffurflen hon.

### Beth sydd angen i chi ei wneud

- Nodwch eich manylion yn adran **1**.
- Gofynnwch i'r gweithiwr meddygol lenwi adran **2** a **3**, ac i ddarllen, llofnodi a dyddio'r datganiad yn adran **4**.
- Unwaith y byddant wedi llenwi'r ffurflen, gweler tudalen 4 ar sut i ddychwelyd hon.

**Ni ddylech** lenwi'r ffurflen hon os oes gennych chi anhawster dysgu penodol. Bydd angen i chi anfon adroddiad diagnostig atom gan Athro Arbenigol neu Seicolegydd sy'n meddu ar gymhwyster addas yn lle hynny.

Rydym yn argymell eich bod yn cadw copi o'r ffurflen hon ar gyfer eich cofnodion eich hun. Efallai y bydd ei angen arnoch yn ddiweddarach ar gyfer eich anghenion asesiad.

## Adran 1 Manylion y myfyriwr

**1.1** Manylion personol y myfyriwr

Cyfeirnod Cwsmer

Teitl

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Dyddiad geni

Diwrnod / Mis / Blwyddyn

**Dylech roi'r ffurflen hon i weithiwr meddygol ei llenwi nawr.**

## Adran 2 Manylion y gweithiwr meddygol

Er mwyn cefnogi cais y myfyriwr am DSA, bydd angen i chi roi gwybodaeth i ni am natur nam y myfyriwr. Dylech lenwi adran 2 a 3, llofnodi'r datganiad, ac yna rhoi'r ffurflen yn ôl i'r myfyriwr.

I gael gwybod sut fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth a ddarparwch, ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/hysbyseb-preifatrwydd** i ddarllen ein Hysbysiad Preifatrwydd cyn llenwi'r ffurflen hon.

**2.1** Eich manylion chi

Enw llawn

Teitl swydd

Rhif cofrestru neu dystysgrif (GMC, HPC, NMC)

**2.2** Manylion y practis neu'r sefydliad

Pan fo modd, dylech ddefnyddio stamp eich practis neu'ch sefydliad.

Math o bractis neu sefydliad

- ☐ Practis Meddyg Teulu
- ☐ Tîm Gofal Sylfaenol
- ☐ Tîm Gofal Eilaidd
- ☐ Ysbyty
- ☐ Arall (nodwch y manylion isod)

Enw'r practis neu'r sefydliad

Cyfeiriad

Cod post

Rhif cyswllt

## Adran 3 Am anabledd y myfyriwr

**3.1** Beth yw'ch cyswllt proffesiynol chi gyda'r myfyriwr?

Dim ond os nad yw hyn yn amlwg o deitl eich swydd fydd angen i chi ddarparu manylion.

**Gan ddefnyddio'ch barn broffesiynol chi, dylech ateb y cwestiynau canlynol am y myfyriwr.**

**3.2** A oes gan y myfyriwr anabledd?

☐ **Nac oes**

☐ **Oes**

**3.3** A oes gan y myfyriwr nam corfforol, synhwyraidd neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol* a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd (gan gynnwys addysg)?

Er mwyn iddo gael ei ystyried fel nam hirdymor, rhaid bod effaith y nam wedi para o leiaf 12 mis neu mae'n debygol o bara o leiaf 12 mis, neu am weddill bywyd y myfyriwr.

*mwy na mân effaith neu effaith ddibwys.

☐ **Nac oes**

☐ **Oes – nodwch y manylion**

**3.4** Diagnosis / diagnosis gwaith (gan gynnwys unrhyw ddyddiadau perthnasol)

Os na fydd modd nodi'r naill na'r llall, esboniwch pam

Dyddiad y rhoddwyd diagnosis

Diwrnod Mis Blwyddyn

☐☐ / ☐☐ / ☐☐☐☐

## Adran 4 Datganiad y gweithiwr meddygol proffesiynol

Dylech lofnodi a dyddio isod er mwyn cadarnhau bod yr wybodaeth y gwnaethoch ei darparu i ni yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf eich gwybodaeth.

Eich llofnod

**X**

Dyddiad heddiw

Diwrnod Mis Blwyddyn

☐☐ / ☐☐ / ☐☐☐☐

**Rhowch y ffurflen yn ôl i'r myfyriwr.**

# Adran 4 Gwybodaeth ychwanegol

## 4.1 Cyn i chi anfon eich ffurflen

Rydym yn argymell eich bod yn cadw copi o’r ffurflen hon ar gyfer eich cofnodion eich hun. Efallai y bydd ei angen arnoch yn ddiweddarach ar gyfer eich anghenion asesiad.

## 4.2 Anfon eich ffurflen a thystiolaeth

**Os gwnaethoch chi gais am DSA ar-lein**

1. Cadwch y ffurflen hon a chopi o’ch tystiolaeth i’ch dyfais.
2. Ewch i’ch cyfrif ar-lein **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**
3. Cliciwch ar yr adran ‘rheoli eich cyllid myfyriwr’, yna dewiswch ‘lanlwytho tystiolaeth ategol’

**Os na allwch lanlwytho eich ffurflen neu dystiolaeth ar-lein neu os gwnaethoch gais am DSA ar bapur**

Gallwch ddychwelyd copi o’r rhain i’r tîm DSA drwy e-bost at **sfw_dsa_medical_evidence@slc.co.uk**

Sicrhewch fod y rhain wedi’u cynnwys fel atodiadau.

Gallwch hefyd eu hanfon drwy’r post at

**Cyllid Myfyrwyr Cymru**
**Blwch Post 211**
**Cyffordd Llandudno**
**LL30 9FU**

Cofiwch dalu’r tâl post cywir.

# Adran 4 Gwybodaeth ychwanegol

**4.3** A oes angen help arnoch?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich cais gallwch anfon e-bost atom:

**sfw_dsa_team@slc.co.uk**

Dylech gynnwys eich Cyfeirnod Cwsmer ar unrhyw e-byst y byddwch yn eu hanfon.

**4.4** A oes angen y ffurflen hon arnoch mewn braille, print bras neu fformat sain?

E-bostiwch ni:

**brailleandlargefonts@slc.co.uk**

neu ffoniwch ni ar **0141 243 3686**

Sylwer, dim ond ceisiadau am ffurflenni a chanllawiau ar ffurfiau amgen y gall y cyfeiriad e-bost a rhif ffôn uchod ddelio â nhw.